**Cofnodion Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru**
**Cynhaliwyd dros Teams ar 10 Tachwedd 2023, 12:00 i 13:30**

**Aelodau'r Senedd oedd yn bresennol:**
Mark Isherwood (Cadeirydd), Ken Skates, Llyr Gruffydd, Carolyn Thomas, Sam Rowlands

**Staff cefnogi'r Senedd:**

Rhys Hughes, Ann Owen-Williams, Staff Comisiwn y Senedd

**ASau:**

Mark Tami AS
**Senedd Ieuenctid Cymru:**

Keira Bailey-Hughes, Leola

**Arweinwyr Awdurdodau Lleol:** Y Cynghorydd Dyfrig Lewis Siencyn (Gwynedd), Y Cynghorydd Jason McLellan (Sir Ddinbych), Y Cynghorydd Ian Roberts (Sir y Fflint), Y Cynghorydd Robin W. Williams (Ynys Môn, yn dirprwyo dros y Cynghorydd Llinos Medi)

**Gwesteion:**
Lea Beckerleg (Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd Cymru - Cludiant a Chysylltedd Digidol)

**Uchelgais Gogledd Cymru** Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio

**Siaradwyr:** Yr Athro John Parkin, Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru

**Trafnidiaeth Cymru:** Lee Robinson

**Swyddogion CLILC:** Chris Llewelyn (Prif Weithredwr), Lucy Sweet (Ysgrifennydd Grŵp), Evelyn James (Swyddog Cefnogi), Tim Peppin (Cyfarwyddwyr Adfywio)

**Cyfieithu**: Bethan Mair Evans

**Camau y Cytunwyd Arnynt:**

- Ysgrifennu ar y cyd at y Dirprwy Weinidog am yr adroddiad cludiant gydag argymhellion pellach.

- Cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol byr arall i benodi swyddogion (Lucy Sweet)

1. **Croeso gan y Cadeirydd a Chyflwyniadau.** Bydd yr Athro John Parkin yn annerch yn lle'r Arglwydd Burns.
2. **Dim materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf** a gynhaliwyd ar 14 07 23. Roedd Stephen Jones yn hapus i gynnig bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir, ac eiliwyd gan Carolyn Thomas. Dim anghytuno.

3. **Cyflwyniad Comisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru gan yr Athro Parkin:** Bydd yr adroddiad allan ddiwedd mis Tachwedd ar ôl ymgysylltu â budd-ddeiliad - y Senedd, Cyrff Cyhoeddus ac arolwg (268 o ymatebion), 85% yn cytuno bod angen gwelliant. Wedi'i ymestyn i gynnwys Pont dros afon Menai ym mis Chwefror 23. Wedi'i gefnogi gan Trafnidiaeth Cymru ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae poblogaeth Gogledd Cymru yn wledig ac ar wasgar ac maent yn teithio ymhellach. Diwydiant wedi'i ganoli o gwmpas Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Chaer. Teithio trawsffiniol i'r ardaloedd hyn yn ogystal â Threfi Arfordirol a Pharciau Cenedlaethol, hefyd y Porthladd rhydd wedi'i gynllunio yng Nghaergybi. Mae pawb yn ymwybodol fod canslo HS2 gan y Prif Weinidog wedi arwain at gyllid arfaethedig i drydaneiddio prif linell Gogledd Cymru. Byddai angen gwella'r capasiti yng ngorsaf Caer hefyd - platfform ac arwyddion newydd. Mae gwelliannau eraill i'r rheilffordd gan y Comisiwn yn cynnwys y llinell Wrecsam i Bidston gyda chyfnewidfa yn Shotton i'r brif linell i Fangor, a gwelliannau i'r llwybr o'r Amwythig i Wrecsam a Chaer.  Rhan o'r ateb yw'r rheilffordd, mae angen gwelliannau i wasanaethau bysiau a Theithio Llesol. Mae newidiadau deddfwriaethol ar y gweill o ran masnachfreinio gwasanaethau bysiau, fyddai'n helpu i wella cydlyniant rhwng y defnydd o fysiau a threnau. Model i Ogledd Cymru i hyrwyddo rhwydwaith rhanbarthol yn cynnwys gwasanaethau arfordirol a gwledig. Mae Teithio Llesol yn rhagweld defnyddio llwybrau cerdded a beicio ond mae diffyg llwybrau addas a diogel, oherwydd mae'r datblygiad yn amodol ar faterion ariannol. Cyllid drwy Drafnidiaeth Cymru, sydd ag offeryn blaenoriaethu i ddynodi pa lwybrau fydd â'r effaith fwyaf. Mae angen cynllunio, rheoli a newid ymddygiad. Gallai gwelliannau i gludiant cyhoeddus gynnwys tocynnau integredig, cynlluniau ar gyfer uchafswm pris a defnyddio systemau talu tapio cerdyn wrth fynd ar y bws neu drên ac oddi arnynt.

Afon Menai - mae dwy bont ond mae tri chwarter y traffig yn croesi dros Bont Britannia ar hyn o bryd. Mae'n tueddu i gael gwyntoedd cryfion, damweiniau a chyfradd llygru uchel. Angen addasu trefniant y gyffordd a'r cyflymder a chynlluniau lliniaru rhag gorfod cau. Cynlluniau ar gyfer allwyro'r gwynt a therfyn cyflymder amrywiol i sicrhau llif didrafferth o gwmpas cyffordd 9 ac 8A. Gweithio gyda fframwaith amlasiantaeth.

.  Cwestiwn gan y Cynghorydd Ian Roberts: A gafwyd unrhyw drafodaethau am Queensferry a phont yr A494 dros afon Dyfrdwy? Mae'r bont mewn cyflwr gwael ac yn ymdopi â llawer iawn o draffig. Cafwyd haf dychrynllyd ar yr A55 gyda damweiniau a chau'r ffordd yn gwthio traffig oddi ar yr A55 drwy drefi fel y Fflint. Dim sôn am droi'r A548 yn gefnffordd a throsglwyddo Pont Kelsterton o CSFf i Lywodraeth Cymru. Os bydd pont yr A494 yn Queensferry yn cau, bydd yn arwain at anhrefn i'r traffig ar draws Gogledd Cymru. Ni chynghorwyd bod yr A494 wedi'i israddio. Dywedodd yr Athro nad oedd yn rhan o'i gylch gwaith, canlyniadau canslo'r llwybr coch?

.  Dywedodd Carolyn Thomas ei bod wedi bod yn trafod y mater yn anffurfiol yn y Senedd, bydd yn pwyso am gadarnhad ysgrifenedig o'r hyn a ddywedwyd wrthi'n anffurfiol. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cynllun llai, heb gynyddu capasiti felly fyddai dim angen symud y llinell rheilffordd a'r peilonau. Dim yn glir pam nad oedd yn rhan o'r adolygiad (fel y pontydd dros Afon Menai). Mae angen cynnal y priffyrdd a phalmentydd presennol ac nid oes arian yn cael ei fuddsoddi mewn hynny.  Allwn ni ddefnyddio cyllid Teithio Llesol gan fod beicwyr yn defnyddio'r palmant? Mae angen bwydo hyn i'r adolygiad. Mae cludiant gwahanol yn darparu isadeiledd newydd, fydd angen mwy o waith cynnal a chadw. Sut mae Awdurdodau Lleol yn mynd i ddarparu'r cyllid refeniw ar gyfer hynny?

. Yr Athro Parkin: Tynnwyd ein sylw at waith cynnal a chadw, rhan o gyllid refeniw ac nid cyfalaf. Cytunodd bod cludiant gwahanol yn darparu isadeiledd newydd, fydd angen mwy o waith cynnal a chadw.
. Ken Skates - mae'r grŵp angen ysgrifennu llythyr ar y cyd at y Dirprwy Weinidog gan fod y Llwybr Coch wedi'i ganslo a dylai fod dewis arall i bont yr A494 yn Queensferry fod yn ei le. Roedd wedi gofyn yn flaenorol am i unrhyw waith ffordd mawr gael ei benderfynu ar lefel ranbarthol ac roedd eisiau i'r polisi ffordd gael ei ddatganoli i'r Gogledd.
. Mynegodd y Cynghorydd Robin Williams ei siom am ganlyniad yr adolygiad, roedd yn teimlo na fyddai'r mesurau a argymhellwyd gan y Comisiwn (o'u cymharu â phont newydd dros afon Menai) yn gwneud gwahaniaeth a byddai'n parhau i frwydro dros isadeiledd gwell. Nid oeddent yn deall daearyddiaeth. Mae'n amhosibl cael rhwydwaith Teithio Llesol gyda'r ffyrdd a'r pellter rhwng trefi ar Ynys Môn, mae ffyrdd yn hanfodol. Roedd yr Athro yn teimlo y gall Teithio Llesol wneud ei ran mewn ardaloedd trefol ac nad ydynt yn amhosibl eu rhoi ar waith. Pwyntiau'r Cynghorydd Williams i gael eu hymgorffori i'r llythyr.
. Cytunodd Mark Isherwood i lythyr gael ei anfon, wedi'i gefnogi gan y teimladau a fynegwyd yn y Siambr.

**4. Diweddariad Trafnidiaeth Cymru gan Lee Robinson:** Nid oedd llawer wedi newid ers y cyfarfod diwethaf, er bod Trafnidiaeth Cymru yn edrych ar y strwythur cyfan - tocynnau tymor a phrisiau ar y cyd yn darparu cyfuniad o deithio ar fysiau a threnau. Mae rhai eisoes ar waith e.e. tocyn Un Bws sy'n cael ei brynu'n wythnosol am £28.00. Mae tocynnau tymor yn bodoli, ond maent yn ddrud iawn e.e. Caergybi i Fanceinion yn £7,500.00. Tocyn Crwydro Gogledd Cymru rhwng £15 -£40. Mae'r rhwydwaith trenau a bysiau cyfan yn cael ei adolygu, mwy na hapus i roi diweddariad maes o law. Yn y broses o uwchraddio'r Ganolfan Reoli Weithredol Ranbarthol yng Nghaerdydd, ond mae swyddfa fechan yn Wrecsam hefyd, gyda Chyfarwyddwr yn bresennol yn ogystal â chanolfan hyfforddi.
. Dyfynnodd Carolyn Thomas o enghreifftiau o gynllun dros dro yn RhCT, yn cynnwys pris bws cyfradd sylfaenol o £1.00 a'r bargeinion Traws Cymru sydd ar gael. Cadarnhaodd Lee fod Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i edrych ar y broses ail-dendro.

**5. Cyflwyniad gan Senedd Ieuenctid Cymru**: Rhoddwyd adborth positif ar rolau gan Keira Bailey Hughes a Leola. Etholwyd 60 aelod am gyfnod o ddwy flynedd ac mae ganddynt fewnbwn ar yr Hinsawdd a'r Amgylchedd, Addysg a'r Cwricwlwm ac Iechyd a Lles ac maent yn trafod materion gyda'r Gweinidogion. Dywedodd Keira ei bod yn gweithio gyda GISDA, elusen iechyd meddwl a lles oedd yn dod o hyd i hosteli ac yn darparu therapi celf ymhlith gwasanaethau eraill. Roedd hi wedi cael ei hethol yn 2021. Roedd yn rhwydweithio â sefydliadau eraill fel bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed. Roedd yn ymgyrchu am adnoddau gwell, gwthio am addysg a lwfansau cynnal yn ystod yr argyfwng costau byw, roedd wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad/arolwg ymhlith athrawon, gwarcheidwaid a phlant. Cyhoeddwyd adroddiad yn 2022, cafwyd dros 3500 o ymatebion gan bobl ifanc ac oedolion. Cefnogaeth drwy arholiadau, mannau diogel mewn ysgolion a chefnogaeth lles. Bellach yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar y darganfyddiadau.
. Ar ran y Senedd, cadarnhaodd Ann Owen Williams fod darganfyddiadau'r adroddiad ar gludiant yn amserol gan ei fod wedi ystyried agweddau 1300 o bobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiadau ym Mlaenau Ffestiniog a Phontypridd. Adroddiad Ffyrdd Gwyrdd (Senedd.Cymru)

Y prif rwystr i gludiant cyhoeddus yw'r gost ac nid yw 70% yn ymwybodol o 'Fy Ngherdyn Teithio'. Awgrymwyd y dylai cludiant cyhoeddus fod am ddim i rai dan 25 oed, dywed y mwyafrif y byddent yn ei ddefnyddio os byddai am ddim. Problemau o ran hwylustod a diogelwch gan nad yw bysiau'n ddibynadwy. Cytuno gyda Theithio Llesol ond mae angen gwneud llwybrau cerdded a bysiau mwy diogel. Contact@youth Senedd.
Mwy o etholiadau'r flwyddyn nesaf i'r Senedd Ieuenctid.
. Cadarnhaodd y Cynghorydd Siencyn bod Fforwm Ieuenctid yng Nghyngor Gwynedd a bod aelodau iau yn gallu cysgodi gwaith y cyngor. Roedd yn croesawu cysylltiadau â'r Senedd.
Cadarnhaodd Ann fod sawl swyddog yng Ngwynedd a byddai'n hapus i rwydweithio ar draws Wrecsam, Conwy a Sir y Fflint. Dynodwyd angen gwirioneddol i egluro trefniadau llywodraethu i'r ieuenctid.

**6. Diweddariad ar Uchelgais Gogledd Cymru gan Alwen Williams:**

. Roedd y prif brosiectau ar y gweill a bellach yn nodi prosiectau newydd. Daeth y broses ymgeisio i ben ym mis Medi 2023, bellach yn gwerthuso. Cafodd 5 prosiect ddyraniad amodol.

> *Responsible Adventure Zip 6.2 miliwn, Studio Kinmel 6.8 miliwn, Canolbwynt Hydrogen Caergybi 3.8 miliwn, Gwaith Gwastraff i Ynni yng Nglannau Dyfrdwy /The Circular Economy Ltd 6.4 miliwn a Phrosiect Porth Wrecsam 4.79 miliwn*

. Estyniad wedi'i gynllunio i Borthladd rhydd Caergybi wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae gorchymyn diwygio harbwr yn ei le. Ansicrwydd wedi'i ddileu. Roedd y tîm yn gwneud gwaith dilynol ar Borthladdoedd Stenna Line.

. Roedd lle i Brifysgol Bangor hefyd, ac roedd signalau digidol ar y gweill, mwy o offer wedi'i brynu ac 14 aelod o staff yn fwy. Cydweithio rhwng ymchwil a'r diwydiant telathrebu.

. Y nod yw masnacheiddio ymchwil a bodloni'r her hydrogen drwy'r Canolbwynt, angen rhoi hwb i'r economi hydrogen ar gyfer darparu a defnydd yn amodol ar gap o 11.2 ar y gronfa.

. Datblygiad 4 tyrbin newydd, gyda gorgyffwrdd rhwng ynni morol a llanw. Allbwn o 50 MW gan y DU, mae 22 MW yn cael ei gynhyrchu gan Barth Morlais. Refeniw i ddatblygwyr. Mae gwaith ar yr is-orsaf wedi parhau ac mae wedi'i gwblhau. Mae prosbectws Morlais yn nodi'r sgiliau ar gyfer y sector. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid, wedi rhoi ynni carbon isel ar flaen yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ac ymchwil a wnaed gan Wavehill.

Mae'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r Senedd ac wedi rhoi tystiolaeth ochr yn ochr â Llinos Medi.

Mae Ynni Niwclear yng Ngogledd Cymru wedi sicrhau cyllid ac mae bellach yn recriwtio yn y maes digidol.
Adolygu Trothwy Portffolio ym mis Hydref 2023. Cadarnhaodd panel o arbenigwyr statws Oren/Coch a gwnaed 15 o argymhellion, gweithio arnynt. Byddwn yn nodi ein hymateb. Gobeithio dod â mwy o fuddsoddiad i'r rhanbarth. Comisiynwyd Savills Consultants i gynghori ar gynyddu apêl i'r sector buddsoddi.

7. **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol** Fel Cadeirydd, gofynnodd Mark Isherwood os yw'r adroddiad blynyddol yn barod, cadarnhaodd Lucy y byddai'n barod mewn 5-6 wythnos. Holwyd am etholiadau swyddogion a chadarnhaodd Lucy ei bod yn hapus i barhau fel ysgrifennydd tan y cyfarfod nesaf, ond rhagwelodd y byddai rhywun arall yn cymryd ei lle wedyn. Pwy fyddai'n cynnig ac ati? Prinder Aelodau o'r Senedd gan eu bod wedi gadael y cyfarfod, felly gadawyd gyda'r bwriad o gynnal cyfarfod byr arall erbyn diwedd y flwyddyn i ethol swyddogion, a bod y swyddogion presennol yn parhau yn y cyfamser.

8. **Unrhyw Fater Arall** – na.